



## **Datganiad polisi Cyngor Bro Morgannwg ar recriwtio cyn-droseddwyr**

- Fel sefydliad sy'n defnyddio gwasanaeth gwirio'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) i asesu addasrwydd ymgeiswyr ar gyfer swyddi o ymddiriedaeth, mae Cyngor Bro Morgannwg yn cydymffurfio'n llawn â'r Cod Ymarfer ac yn addo trin yr holl ymgeiswyr am swyddi'n deg. Mae'n addo peidio â gwahaniaethu'n annheg yn erbyn unrhyw berson y mae ei wiriad GDG yn dangos euogfarn neu unrhyw wybodaeth arall wedi'i datgelu.
- Mae Cyngor Bro Morgannwg wedi ymrwmo i drin ei staff, ei ddarpar staff neu'i ddefnyddwyr gwasanaeth yn deg, ni waeth eu hil, rhyw, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol, cyfrifoldeb am ddibynyddion, oedran, anabledd corfforol/meddwl neu gefndir troseddol
- Mae gennym bolisi ysgrifenedig ar recriwtio cyn-droseddwyr, sydd ar gael i bob ymgeisydd GDG ar ddechrau'r broses recriwtio.
- Rydym yn hyrwyddo'n weithredol gyfle cyfartal i bawb sydd â'r cymysg iawn o ddoniau, sgiliau a photensial ac yn croesawu ceisiadau gan ystod eang o ymgeiswyr gan gynnwys y rhai hynny sydd â hanes troseddol. Rydym yn dewis pob ymgeisydd ar gyfer cyfsweliad ar sail ei sgiliau, ei gymwysterau a'i brofiad.
- Gofynnir am wiriad GDG dim ond pan fo asesiad risg trwyadl wedi nodi bod un yn gymesur â'r swydd dan sylw ac yn berthnasol iddi. Ar gyfer y swyddi hynny mae angen gwiriad GDG ar eu cyfer, bydd pob ffurflen gais, hysbyseb swydd a briff recriwtio yn cynnwys datganiad y gofynnir am wiriad GDG os caiff y swydd ei chynnig i'r unigolyn.
- Pan fo gwiriad GDG yn rhan o'r broses recriwtio, rydym yn annog pob ymgeisydd sy'n cael ei alw i gyfsweliad i roi manylion o'i hanes troseddol ar ddechrau'r broses ymgeisio. Rydym yn gofyn bod y wybodaeth hon yn cael ei hanfon mewn llythyr cyfrinachol ar wahân at berson dynodedig yng Nghyngor Bro Morgannwg ac rydym yn gwarantu y bydd y wybodaeth hon dim ond yn cael ei gweld gan y bobl hynny y mae angen arnynt ei gweld yn rhan o'r broses recriwtio.
- Oni bai bod natur y swydd yn galluogi Cyngor Bro Morgannwg i ofyn cwestiynau am eich hanes troseddol cyfan, rydym dim ond yn gofyn am euogfarnau heb eu disbyddu fel y'u diffinnir yn Neddf Adsefydlu Troseddwyr 1974.
- Rydym yn sicrhau bod pawb yng Nghyngor Bro Morgannwg sy'n rhan o'r broses recriwtio wedi'u hyfforddi'n addas i nodi ac asesu perthnasedd ac amgylchiadau'r trosedd. Rydym hefyd yn sicrhau eu bod wedi derbyn

arweiniad a hyfforddiant priodol yn y ddeddfwriaeth berthnasol sy'n ymwneud â chyflogi cyn-droseddwyr, e.e. Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974.

- Mewn cyfweiliad, neu mewn trafodaeth ar wahân, rydym yn sicrhau bod trafodaeth agored ac ystyriol yn cael ei chynnal ar unrhyw droseddau neu unrhyw fater arall a allai fod yn berthnasol i'r swydd. Gallai methu â datgelu gwybodaeth sy'n uniongyrchol berthnasol i'r swydd y ceisir amdani arwain at y cynnig am gyflogaeth yn cael ei dynnu'n ôl.
- Rydym yn sicrhau bod gwrthrych gwiriad GDG yn ymwybodol o'r Cod Ymarfer ac yn gwneud copi ar gael ar gais.
- Rydym yn addo trafod unrhyw fater a ddatgelir gan wiriad GDG gyda'r person sy'n ceisio'r swydd cyn tynnu cynnig amodol am gyflogaeth yn ôl.